

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
Adran y Gyfraith a Throseddeg

Astudiaethau israddedig mewn

# Cyfraith a Throseddeg

# Cynnwys

Croeso t.1
Pam astudio'r Gyfraith yn Aberystwyth? t.2
Cyrsiau y Gyfraith t.4
Pam astudio Troseddeg yn Aberystwyth? t.14
Cyrsiau Troseddeg t.16
Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg t.22
Eich dyfodol t.24
Proffil myfyriwr t.25
Ymchwil t.26
Bywyd yr adran t.27
Cyfleoedd byd-eang t.28
Sut i wneud cais t.29

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Hydref 2023), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso

Dysgwyd y Gyfraith yn Aberystwyth ers 1901. Mae gan yr Adran draddodiad balch o ysgolheictod ac ymchwil ac mae hi wedi paratoi cenedlaethau o bobl o bob cwr o'r byd am yrfaoedd proffesiynol a bywyd yn gyffredinol. Mae rhai o gyfreithwyr, gwleidyddion ac ysgolheigion mwyaf nodedig Cymru, Prydain a thu hwnt wedi astudio yma.

Bu'n Adran ddeinamig a blaengar erioed, ac mae ychwanegu Troseddeg at ein rhengoedd wedi ein rhoi mewn sefyllfa i sefydlu Adran y Gyfraith a Throseddeg lewyrchus yn yr oes sydd ohoni, ar gampws Penglais y Brifysgol, dafliad carreg o fae trawiadol Ceredigion.

Os dewch i astudio yma, byddwch yn profi amgylchedd cefnogol fydd yn eich ysgogi ac a fydd yn rhoi boddhad i chi mewn adran a chanddi hunaniaeth benodol, profiad helaeth, addysgu rhagorol a gweithgarwch ymchwil deinamig, heb sôn am gefnogaeth llyfrgell a darpariaeth TG ardderchog.

Yn fwy na dim, byddwch yn cael eich dysgu a'ch arwain gan gymuned o ysgolheigion fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar eich cynorthwyo i lwyddo a gwireddu eich potensial. Nid trwy ddamwain y dyfarnwyd Prifysgol Aberystwyth yn Brifysgol y Flwyddyn am ansawdd ei dysgu dwy flynedd yn olynol (Canllaw Prifysgolion Da, y Times a Sunday Times 2018 a 2019) ac rydym hefyd ar y brig yng Nghymru am ragoriaeth dysgu a bodlonrwydd myfyrwyr (Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2023).

Yn ogystal ag ansawdd dysgu eithriadol, mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig profiad myfyriwr sy'n cael ei barchu'n fawr gan ei myfyrwyr. Am dair blynedd, gosodwyd y Brifysgol yn y safle uchaf yng Nghymru a Lloegr am fodlonrwydd myfyrwyr.

Gall israddedigion astudio'r gyfraith neu droseddeg fel un pwnc neu gyda'i gilydd, neu eu cyfuno â phynciau eraill. Cynigiwn hefyd raddau arbenigol megis Cyfraith Hawliau Dynol a Throseddeg a Seicoleg Droseddol.

Mae pob un o'n cynlluniau gradd yn y gyfraith yn cynnig sylfaen dda ar gyfer ymarfer y gyfraith. Maent yn raddau cymhwysol yn y gyfraith ar gyfer Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar (i'r rhai sy'n bwriadu bod yn fargyfreithwyr) a'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (i'r rhai sy'n bwriadu bod yn gyfreithwyr). Bydd y graddau hyn yn llwyfan ardderchog i'r rheiny yn eich plith sy'n dymuno paratoi am Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr newydd, a bwriadwn gyflwyno cyrsiau israddedig ac uwchraddedig newydd fydd wedi'u hanelu at baratoi myfyrwyr yn drwyadl am y llwybr newydd hwn i gymhwyso yn gyfreithiwr.

A minnau wedi bod yn ymarferydd cyfreithiol ers dros ddeng mlynedd ar hugain, rwy'n deall gwerth meithrin sgiliau a phrofiad ymarferol i fyfyrwyr yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Yn ogystal â dysgu academaidd rhagorol, mae'r adran yn cynnig llawer o gyfleoedd i wneud hyn. Ymhlith y rhain y mae ein Clinig Cyfraith Teulu lle gall myfyrwyr wneud gwaith achos dan gyfarwyddyd cyfreithiwr cymwysedig, ein cymdeithas ymryson weithgar lle gall myfyrwyr feithrin ac ymarfer eu sgiliau eirioli a pharatoi achos, a chyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer ein prosiect ymchwil Dewis/Choice sy'n torri tir newydd wrth ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phwnc sy'n prysur ddatblygu'n uchel ei broffil, sef cam-drin yr henoed.

Mae diddordebau ac arbenigedd ein staff yn ymwneud ag ystod eang o bynciau. Bydd llawer yn cyfrannu at ddadleuon a gwaith llunio polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, sy'n cynnwys cydweithio â'r Undeb Ewropeaidd, y Cenhedloedd Unedig, Cyngor Ewrop, a llywodraethau a chorfforaethau canolog a datganoledig. Rhoddir pwyslais cryf ar hawliau dynol ac amrywiaeth, a chynigiwn gyrsiau hawliau dynol i israddedigion ac uwchraddedigion fel ei gilydd. Mae materion sy'n ymwneud â rhywedd, diwylliant, iaith, ieuenctid, cyn-filwyr a'u teuluoedd, a henaint yn themâu pwysig yng ngwaith yr adran. Mae cyfraith busnes a masnach hefyd yn elfennau cryf yn ein gwaith dysgu, yn cynnwys cwrs LLB arbenigol mewn cyfraith busnes.

Gall dewis prifysgol fod yn brofiad dyrys. Ceir dewis eang, ac nid yw bob amser yn rhwydd i ddewis yr un sy'n iawn i chi. Ar ôl dweud hynny, os oes gennych ddiddordeb mewn astudio'r Gyfraith neu Droseddeg mewn Prifysgol sefydledig mewn rhan brydferth ac unigryw o'r wlad, gall Aberystwyth gynnig ichi adran ddeinamig a chyfeillgar sy'n canolbwyntio ar ansawdd ei dysgu.

Edrychaf ymlaen at eich croesawu i Aberystwyth.

**Yr Athro Emyr Lewis**
**Pennaeth Adran**



# Pam astudio'r Gyfraith yn Aberystwyth?

Dysgwyd y Gyfraith yn Aberystwyth ers 1901. Mae gan yr Adran draddodiad balch o ysgolheictod ac ymchwil ac mae hi wedi paratoi cenedlaethau o bobl o bob cwr o'r byd am yrfaoedd proffesiynol a bywyd yn gyffredinol.

O ddechrau eich gradd, byddwch yn elwa o allu manteisio ar ein cysylltiadau hir sefydlog â phobl broffesiynol leol ym maes y gyfraith ac yn cael eich annog i ymwneud â chleientiaid a gwaith achos go-iawn dan arweiniad a gyda chefnogaeth ein tîm academaidd uchel ei barch. Byddwch yn gallu manteisio hefyd ar adnoddau megis y rhai yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU) y gellir cerdded iddi o'r Adran mewn ychydig funudau.

## Pam Aberystwyth?

Mae gennym dros 100 mlynedd o brofiad dysgu, ac rydym yn cyfuno dulliau modern o ddysgu ac yn eich annog i feithrin sgiliau proffesiynol drwy gydol eich gradd. Rydym hefyd yn y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig am Ansawdd y Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr ym maes y Gyfraith (Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2020 a 2021).

Ar ben hyn, byddwch hefyd yn dysgu oddi wrth ddarlithwyr sy'n adnabyddus yn rhyngwladol ac sy'n cyfrannu at waith ymchwil arloesol. Mae'r gwaith ymchwil a wneir yn yr Adran yn creu amgylchedd dysgu ysgogol ac yn rhoi'r cyfle ichi gyfrannu at ddadleuon ehangach o ran y gyfraith. Byddwch yn elwa hefyd ar ein cysylltiadau cryf â chyn-fyfyrwyr ledled y byd.

## Y Clinig Cyfraith Teulu

Mae'r clinig, a oedd ar y rhestr fer ar gyfer 'Gwobr LawWorks Cymru 2018', yn cynnig cyngor cyfreithiol, cyfrinachol am ddim mewn cyfraith teulu a phlant, sy'n faes y gall pobl ei chael hi'n anodd canfod a fforddio gwasanaethau cyfreithiol eraill ynddo. Law yn llaw â hynny, mae'r clinig yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gael profiad gwerthfawr o fywyd go iawn ac i roi'r theori maen nhw wedi'i ddysgu ar waith. Caiff gwaith y clinig ei oruchwylio gan gyfreithiwr profiadol er mwyn sicrhau bod y cyngor cyfreithiol o safon uchel drwyddo draw.

## Prosiect Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr

Sefydlwyd Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr yn 2015 i fynd i'r afael â'r diffyg cyngor cyfreithiol yng Nghymru. Mae'r prosiect yn gwahodd cyfreithwyr a myfyrwyr y gyfraith i helpu cyn-filwyr a'u teuluoedd i dderbyn cyngor cyfreithiol am ddim. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo cyn-filwyr a'u teuluoedd i ailymuno â chymdeithas drwy ddarparu gwasanaeth cyfeirio cynhwysfawr ar gyfer cyngor cyfreithiol a gwasanaethau cynghori ehangach nad ydynt yn rhai cyfreithiol. Caiff y prosiect ei redeg ledled y wlad ar- lein, dros y ffôn, drwy Skype ac wyneb yn wyneb.





# Cyrsiau y Gyfraith

## Anrhydedd sengl


| | |
|---|---|
| Cyfraith a Throseddeg | t.5 |
| Cyfraith Busnes | t.6 |
| Cyfraith Droseddol | t.7 |
| Cyfraith Statws Uwch | t.9 |
| Hawliau Dynol | t.10 |
| Y Gyfraith | t.12 |
| Graddau Cyfun | t.13 |




# Cyfraith a Throseddeg

81% ar gael drwy'r Gymraeg

LLB (Anrh) | MM91 | 3 blynedd

Mae'r cwrs hwn yn gyfle ichi astudio am radd yn y Gyfraith ynghyd â dod i ddeall mwy am achosion a goblygiadau troseddu. Mae'r cwrs LLB Cyfraith a Throseddeg yn berffaith ar gyfer y rhai sydd â'u bryd ar yrfa uchelgeisiol yn y gyfraith a'r system cyfiawnder troseddol yn yr 21ain ganrif.

Cewch gyfle drwy gydol y cwrs Cyfraith a Throseddeg i ymarfer eich sgiliau wrth astudio. Mae lleoliadau gwaith ar gael ar gyfer y rhaglen hon - rydym yn anfon ein myfyrwyr at gyflogwyr lleol perthnasol - er mwyn ichi gael profiad gwaith ochr yn ochr ag astudio'r gwaith theori.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan staff proffesiynol - llawer ohonynt wedi bod yn fargyfreithwyr a chyfreithwyr, ac felly'n rhoi gwedd ymarferol ar eich astudiaethau damcaniaethol
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson
- ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd ym meysydd troseddeg, cyfiawnder troseddol, a chyfraith a threfn
- cyfleoedd i gynorthwyo ymarferwyr cyfreithiol gyda gweithgareddau cynghori cleientiaid
- cyfleoedd profiad gwaith ym meysydd busnes, cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol, a'r llysoedd
- y cyfle i astudio'r saith sylfaen gwybodaeth gyfreithiol sy'n ofynnol gan Fwrdd Safonau'r Bar (i fargyfreithwyr) i gael mynediad i'r cwrs proffesiynol. Bydd y pynciau hyn yn rhoi sylfaen gadarn i'r myfyrwyr hynny sy'n dymuno sefyll yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr.

**Cyflogadwyedd**

Mae gradd mewn Cyfraith a Throseddeg o Brifysgol Aberystwyth yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer ystod o yrfaoedd. Mae graddedigion diweddar yn llwyddo mewn troseddeg, rheoli ariannol, busnes, adnoddau dynol, cysylltiadau rhyngwladol, newyddiaduraeth ac addysg. Wrth gwblhau'r radd hon, bydd gennych allu i'w defnyddio yn y byd go-iawn, a fydd yn eich galluogi i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Droseddeg
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Rheoli ac Atal Troseddu
- The Law of Tort
- Cyfraith Droseddol.

**Yr ail flwyddyn:**

Byddwch yn dewis o blith modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Commercial Law
- Drugs and Crime
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Public Law
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour.

**Y flwyddyn olaf:**

- Land Law
- Equity and Trusts
- Add Principles of Evidence
- Traethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Cyfraith Busnes

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## LLB (Anrh) | M140 | 3 blynedd

The Business Law degree is an opportunity to gain an in-depth understanding of business-related legal subjects. Whether you intend to advise the commercial sector or run a business of your own, an understanding of the law as it relates to commercial activity is crucial.

<<Welsh first para doesn't exactly match the English equivalent>> Ar y radd hon byddwch yn canolbwyntio eich astudiaethau ar fodiwlau sy'n ymwneud â chyfraith masnach, cyfraith cwmnïau ac atebolrwydd corfforaethol.

Ar y graddau thematig hyn, bydd y flwyddyn astudio gyntaf yr un peth â'r radd LLB yn y Gyfraith a bydd yr ail a'r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y thema dan sylw. Yn y flwyddyn gyntaf ceir ffocws ar y sgiliau craidd ym maes y Gyfraith, ac yn yr ail a'r drydedd flwyddyn bydd cyfle i adeiladu ar yr egwyddorion allweddol hyn, ond hefyd i archwilio agweddau eraill ar y gyfraith.

Byddwch yn elwa o:

- being taught by professionals who have worked with bodies such as the International Monetary Fund (IMF) and who engage with the Department of Business and Trade and Law Commission on projects relating to modern business activity, including platform regulation and crypto-assets
- cyfle i gymryd rhan yn ein menter 'Gwobr Cais Dyfeisio' - ein cystadleuaeth mentergarwch i fyfyrwyr yn debyg i 'Dragons' Den
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson sy'n cystadlu mewn nifer o gystadlaethau.

**Cyflogadwyedd**
<<Welsh Employability doesn't exactly match the English equivalent>> Wrth gwblhau'r radd hon, bydd gennych allu i'w defnyddio yn y byd go-iawn, a fydd yn eich galluogi i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop.

**Y flwyddyn olaf:**
- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Tir
- Traethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Commercial Law
- Business Law and Practice and Solicitors Accounts
- Dispute Resolution in Contract and Tort
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Labour Law
- Company Law
- Intellectual Property Law
- Medicine, Ethics and the Law
- Human Rights.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Cyfleoedd i astudio dramor:** Oes.



# Cyfraith Droseddol

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## LLB (Anrh) | M131 | 3 blynedd

Ar y cwrs gradd hwn cewch gyfle i astudio agweddau ar y system cyfraith droseddol mewn mwy o fanylder, gan gynnwys agweddau fel rheoleiddio ymddygiad troseddol ac effeithiolrwydd mecanweithiau cosbi ac adsefydlu.

Bydd y cynllun gradd hwn yn rhoi ichi sylfaen werthfawr ar gyfer gyrfa mewn gwaith cyfraith droseddol, naill ai fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr, neu mewn meysydd eraill yn y system cyfiawnder troseddol gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf.

Yn y flwyddyn gyntaf, ceir ffocws ar y sgiliau craidd ym maes y gyfraith. Mae'r ail a'r drydedd flwyddyn yn adeiladu ar yr egwyddorion allweddol hyn, ond hefyd yn gyfle i archwilio agweddau eraill ar y gyfraith.

Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i'r rheini sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a'r tu hwnt.

Byddwch yn elwa o:

- being taught by professionals who are active for large organisations eg GRETA, the Youth Justice Board, the United Nations Office of the High Commissioner for Human Rights
- cyfleoedd hyfforddiant gyda Heddlu Dyfed-Powys
- cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson sy'n cystadlu mewn nifer o gystadlaethau.

**Cyflogadwyedd**
Wedi ichi gwblhau'r radd hon, fe fyddwch yn barod i'w defnyddio yn y byd go-iawn, ac fe gewch fynd ati i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop.

**Y flwyddyn olaf:**
- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Tir
- Traethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Medicine, Ethics and the Law
- Principles of Evidence
- Commercial Law
- Criminal Law and Practice
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.


## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Cyfleoedd i astudio dramor:** Oes.





# Cyfraith Statws Uwch

93% ar gael drwy'r Gymraeg

## LLB (Anrh) | M104 | 2 flynedd

Mae Gradd LLB y Gyfraith Statws Uwch ym Mhrifysgol Aberystwyth ar gael i'r rheini a chanddynt eisoes radd Baglor mewn pwnc arall. Lluniwyd y radd ar sail dwy flynedd o astudio i wella eich cyfleoedd gyrfaol.

Fel myfyriwr ar y cwrs hwn, byddwch yn elwa o brofiad a brwdfrydedd ein staff arbenigol. Mae llawer ohonynt wedi bod yn gyfreithwyr - gan roi gwedd ymarferol i'ch astudiaethau o'r ddamcaniaeth. Ethos Adran y Gyfraith a Throseddeg yw meithrin dyfeisgarwch a bydd eich gallu i feddwl y tu allan i'r bocs yn eich galluogi i raddio â galluoedd yn y byd go-iawn, fydd yn llywio eich dyfodol a datblygiad eich gyrfa.

Mae ein graddau LLB yn cynnig sylfaen i'r rhai sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a'r tu hwnt.

Byddwch yn elwa o:

- bod yn rhan o'r adran cyfraith mwyaf profiadol ac uchaf ei pharch yng Nghymru
- being taught by professionals who have worked with large organisations such as GRETA, the Youth Justice Board, the United Nations Office of the High Commissioner for Human Rights and bodies such as the International Monetary Fund (IMF) and who engage with the Department of Business and Trade and Law Commission on projects relating to modern business activity, including platform regulation and crypto-assets
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson sy'n cystadlu mewn nifer o gystadlaethau yn ystod y flwyddyn academaidd, ac sy'n cynnal rhai hefyd
- cyfleoedd i gynorthwyo ymarferwyr cyfreithiol gyda gweithgareddau cynghori cleientiaid
- cyfleoedd i ddilyn modiwlau i'ch paratoi ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr.

**Cyflogadwyedd**

Gall y sgiliau a'r wybodaeth y byddwch yn eu meithrin yma agor drysau i yrfaoedd mewn swyddi yn y maes cyfreithiol a'r tu hwnt. Mae llawer o'n graddedigion yn dechrau ar swyddi fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr; mae eraill yn defnyddio'u gradd fel sbardun ar gyfer gyrfa mewn rheolaeth, busnes neu'r gwasanaeth sifil.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:** Dosbarth 2:1 mewn gradd gyntaf mewn unrhyw bwnc.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**

- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop
- Cyfraith Tir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu diddordebau arbenigol:

- Commercial Law
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Labour Law
- Sports Law and Society
- Family and Child Law
- Business Law and Practice
- Dispute Resolution in Contract and Tort.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

# Hawliau Dynol

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## LLB (Anrh) | M990 | 3 blynedd

Mae'r astudiaeth o hawliau dynol yn aml yn codi uwchlaw ffiniau cenedlaethol, ac efallai y bydd weithiau'n gwrthdaro â syniadau gwladwriaethau unigol o'r hyn ddylai gael ei amddiffyn fel hawl. Mae'r cynllun gradd hwn yn caniatáu ichi ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â diogelu hawliau dynol ac effeithiolrwydd mecanweithiau rhyngwladol ym maes hawliau dynol.

Yn y flwyddyn gyntaf, ceir ffocws ar y sgiliau craidd ym maes y gyfraith. Mae'r ail a'r drydedd flwyddyn yn adeiladu ar yr egwyddorion allweddol hyn, ond hefyd yn gyfle i archwilio agweddau eraill ar y gyfraith.

Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i'r rheini sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a'r tu hwnt.

Byddwch yn elwa o:

- being taught by professionals who are active for large organisations eg GRETA, the Youth Justice Board, the United Nations Office of the High Commissioner for Human Rights
- cyfleoedd i wirfoddoli gyda'r prosiect ymchwil Dewis/Choice ar hawliau pobl hŷn
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson sy'n cystadlu mewn nifer o gystadlaethau.

**Cyflogadwyedd**
Mae'r radd hon yn agor drysau i yrfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol yn y proffesiwn cyfreithiol a phroffesiynau sy'n ymwneud â hawliau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop.

**Y flwyddyn olaf:**
- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Tir
- Traethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Commercial Law
- Family and Child Law
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Labour Law.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Cyfleoedd i astudio dramor:** Oes.





# Y Gyfraith

78% ar gael drwy'r Gymraeg

## LLB (Anrh) | M100 | 3 blynedd

Bydd ein gradd draddodiadol yn y Gyfraith yn rhoi ichi'r cyfle i astudio'r gyfraith, sut mae'n gweithredu, a'r berthynas rhwng y gyfraith, cyfiawnder a'r gymdeithas.

Byddwch yn astudio'r pynciau cyfreithiol sylfaenol, a hefyd yn cael cyfle i deilwra'ch gradd yn unol â'ch diddordebau chi eich hun. Ceir yma rychwant o fodiwlau dewisol sydd â ffocws cryf ar gyfraith ac arferion cyfredol (cyfraith 'y llythyren ddu') i'r rheini sydd â sylfaen fwy cymdeithasegol a damcaniaethol.

Mae ein graddau LLB yn cynnig sylfaen i'r rhai sy'n bwriadu cymhwyso'n gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr.

Mae pob un o'n graddau ym maes y gyfraith yn cynnig y cyfle i astudio saith sylfaen gwybodaeth gyfreithiol sy'n ofynnol gan Fwrdd Safonau'r Bar (i fargyfreithwyr). In their final year students have the opportunity to take optional modules which cover the entire syllabus of Part 1 of the Solicitors' Qualifying Examination.

Byddwch yn elwa o:

- bod yn rhan o un o'r adrannau cyfraith mwyaf profiadol ac uchaf ei pharch yng Nghymru
- being taught by professionals who have worked with large organisations such as GRETA, the Youth Justice Board and the United Nations Office of the High Commissioner for Human Rights
- cyfleoedd i gynorthwyo ymarferwyr cyfreithiol gyda gweithgareddau cynghori cleientiaid
- cyfleoedd profiad gwaith ym meysydd busnes, cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol, a'r llysoedd
- cyfleoedd i ddilyn modiwlau i'ch paratoi ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson.

**Cyflogadwyedd**

Mae gradd yn y Gyfraith o Brifysgol Aberystwyth yn gymhwyster sy'n werthfawr i lawer o yrfaoedd. Yn ogystal â gweithio ym maes y Gyfraith, mae graddedigion diweddar yn gweithio'n llwyddiannus ym meysydd troseddeg, rheoli arian, busnes, adnoddau dynol, cysylltiadau rhyngwladol, newyddiaduraeth, ac addysg. Drwy gydol eich cwrs gradd byddwch yn datblygu cyfoeth o sgiliau y gallwch eu trosglwyddo'n hawdd i unrhyw sefyllfa waith ar lefel raddedig neu broffesiynol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop.

**Y flwyddyn olaf:**

- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Tir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Commercial Law
- Environmental Law
- Human Rights
- Labour Law
- Sports Law and Society
- Family and Child Law
- Medicine Ethics and the Law
- Principles of Evidence
- Company Law
- Business Law and Practice and Solicitors Accounts
- Dispute Resolution in Contract and Tort
- Criminal Law and Practice
- Trusts, Wills and the Administration of Trusts and Estates
- Principles of Professional Conduct.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**M103** Gradd Baglor.
**M10F** Blwyddyn sylfaen integredig.



# Graddau Cyfun

These degrees provide you with the opportunity to study Law alongside another subject, while retaining the option of a career in legal practice. On our Joint Honours degrees, you can study the Foundations of Law modules and progress to Bar Training or SQE preparation courses.

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Y Gyfraith (LLB) | Almaeneg | RM21 |
| | Busnes a Rheolaeth | MN11 |
| | Cyfrifeg a Chyllid | MN14 |
| | Cymraeg Proffesiynol | MQ56 |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | 21LM |
| | Ffrangeg | RM11 |
| | Sbaeneg | RM41 |



Cerflun Lady Justice, The Old Bailey, Llundain.

# Pam astudio Troseddeg yn Aberystwyth?

Yn 2006, datblygodd yr Adran yn Adran y Gyfraith a Throseddeg wrth ddechrau cyflwyno graddau israddedig mewn troseddeg. Mae'n parhau i fynd o nerth i nerth gyda chymuned israddedig ac ôl-raddedig sy'n ffynnu yn y ddwy ddisgyblaeth. Rydym yn yn y 5 uchaf yn y Deyrnas Unedig am Ansawdd y Dysgu ym maes Troseddeg (Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024). Wedi'i lleoli yng nghalon Canolbarth Cymru ac yn edrych i lawr dros Fae Ceredigion, ceir yn yr Adran gampws hon bopeth fydd ei angen arnoch fel myfyriwr prifysgol, a mwy.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i astudio troseddeg. P'un a eich bod yn dymuno canolbwyntio ar droseddeg yn gyfan gwbl, neu droseddeg ynghyd ag un o'r pynciau cytras, gan gynnwys y gyfraith, seicoleg a chymdeithaseg, rydych yn siŵr o gael profiad gradd o safon. O astudio troseddeg, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r agweddau cymdeithasol a phersonol ar droseddeg, dioddefaint ac ymatebion i drais a chyfeiliornedd. Mae ein graddau israddedig yn canolbwyntio'n benodol ar ddeall ymddygiad troseddol, cyfiawnder ieuenctid, plismona ac atal troseddu, a pholisïau, prosesau a systemau cyfiawnder troseddol.

## Pam Aberystwyth?

Gan gyrraedd rhagoriaeth o ran eu hymchwil, eu haddysgu a'u hymarfer, mae ein academyddion amlddisgyblaethol yn cynnig profiad myfyriwr o safon ryngwladol. Mae tystiolaeth gan fyfyrwyr yn cadarnhau bod Aberystwyth yn arwain y ffordd fel lle i fanteisio ar y cyfle i fod yn rhan o gymuned ysgolheigaidd ddeinamig sy'n rhoi anghenion ei myfyrwyr o flaen popeth arall.

Fel y dywedodd ein Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure, "Rydym yn ddigon bach i adnabod ein myfyrwyr fel unigolion ac yn ddigon mawr i feithrin enw da rhyngwladol." Bydd astudio yn Adran y Gyfraith a Throseddeg Prifysgol Aberystwyth yn rhoi'r sylfaen orau i'ch taith broffesiynol, neu'n ei chodi i uchelfannau newydd.


## Canolfan Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Oed

Sefydlwyd y fenter yn 2015, yn ddarparwr gwasanaeth (y cyntaf o'i fath) ac yn ganolfan ymchwil sy'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â thrais yn y cartref yn erbyn pobl hŷn ac anneuaidd. Gan ganolbwyntio ar ymchwil weithgar a chyfranogol, mae'r Ganolfan Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Oed yn unigryw wrth gyfuno darparu gwasanaeth â phrosiect ymchwil. Roedd ein hymchwil wedi amlygu'r angen am hyfforddiant arbenigol i sefydliadau er mwyn iddynt allu adnabod cynnydd, natur a chymhlethdod trais yn y cartref sy'n digwydd yn hwyrach mewn bywyd. Mae llawer o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n gallu achub bywydau. Mae'r Adran yn gweithio'n agos â'r fenter hon, gan gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr wirfoddoli a hyfforddi, ac mae llawer o'n myfyrwyr wedi elwa o'r cyfleoedd hyn.

## Eich dyfodol - Cyflogadwyedd

Mae Adran y Gyfraith a Throseddeg yn rhoi cyflogadwyedd wrth wraidd y cwricwlwm, ac mae ein myfyrwyr yn meithrin sgiliau a gwybodaeth sy'n hanfodol ar gyfer y gweithle drwy gydol eu cynllun gradd. Rydym yn gweithio'n agos â'n Gwasanaeth Gyrfaoedd, sy'n cefnogi ein myfyrwyr i adnabod eu meysydd diddordeb ac i wneud y mwyaf o'u potensial. Ein nod yw paratoi myfyrwyr ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaoedd proffesiynol, astudiaethau pellach a bywyd yn gyffredinol. Gall myfyrwyr sy'n dymuno cael profiad gwaith fanteisio ar un o'r modiwlau ar leoliad ac ennill credydau tuag at eu gradd.

Bydd gradd israddedig mewn Troseddeg yn cynnig ystod o gyfleoedd gyrfa. P'un yr ydych yn dymuno gweithio fel ymarferydd yn y system cyfiawnder troseddol neu'n meddwl y byddai gyrfa ym maes ymchwil neu lunio polisi yn gweddu'n well i chi, bydd astudio gyda ni yn golygu y byddwch yn gallu dechrau rhoi ar waith hanfodion yr hyn rydych chi wedi ei ddysgu ar eich cwrs gradd.



# Cyrsiau Troseddeg

## Anrhydedd sengl


| | |
|---|---|
| Troseddeg | t.17 |
| Troseddeg a Chymdeithaseg | t.18 |
| Troseddeg a Seicoleg Droseddol | t.20 |
| Seicoleg a Throseddeg | t.21 |




# Troseddeg

66% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | M900 | 3 blynedd

Mae Troseddeg yn bwnc hynod ddiddorol sy'n astudio ystyr trosedd a pham mae rhai ymddygiadau penodol yn cael eu cyfrif yn rhai troseddol. Byddwch yn archwilio goblygiadau labelu pobl yn droseddwyr a sut mae cymdeithas yn ymateb i ymddygiad troseddol drwy ganfod, cosbi ac adsefydlu troseddwyr. Byddwch hefyd yn ystyried effaith trosedd a throseddu ar ddioddefwyr ac ar y gymdeithas yn gyffredinol.

Byddwch yn gwneud defnydd helaeth o ddamcaniaethau cymdeithasegol, seicolegol a chyfreithiol ac esiamplau go iawn i archwilio achosion trosedd, sut y diffinnir trosedd, a pham yr ystyrir ymddygiadau penodol yn rhai troseddol. Byddwch yn archwilio effaith troseddu a throseddolrwydd ar ddioddefwyr a chymdeithas, ac yn archwilio amrywiaeth eang o safbwyntiau troseddegol. Bydd rhain yn amrywio o Droseddeg Glasurol i'r meysydd newydd sydd ar frig y byd troseddegol, megis troseddau yn erbyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau i ddadansoddi'r ddadl ynghylch trosedd a throseddiaeth, y wybodaeth am sut a pham y mae pobl yn troseddu, a'r sgiliau i gymhwyso'ch gwybodaeth mewn sefyllfaoedd go iawn.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan droseddegwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil
- y cyfle i wneud profiad gwaith ym maes cyfiawnder troseddol
- y cyfle i astudio Troseddeg sy'n benodol i Gymru
- elwa o'n cysylltiadau cryf ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol
- ymgymryd ag ymchwil annibynnol ym maes troseddeg dan oruchwyliaeth.

**Cyflogadwyedd**
Mae Troseddeg yn cynnig sail academaidd ragorol ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Carchar EF, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a chyfiawnder ieuenctid. Gall cyflawni'r radd hon hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi trosedd neu gudd-wybodaeth, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**M90F** Blwyddyn sylfaen integredig.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Troseddegwyr
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Rheoli ac Atal Troseddu
- Cyfraith Droseddol
- Troseddeg ar Waith.

**Yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf:**

- Troseddeg Feirniadol a Radical
- Traethawd Estynedig Troseddeg
- Sgiliau Ymchwil Meintiol
- Trosedd a Chyfiawnder Ieuenctid.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Crime and the Media
- Drugs and Crime
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Principles of Evidence
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour
- Psychopathology
- Treatment and Rehabilitation of Offenders
- Contemporary Issues in Criminology
- Seiberdroseddu a Seiberddiogelwch
- Psychology & Crime
- Wrongful Convictions in a Criminological Context
- Victimology.

Gall myfyrwyr Troseddeg hefyd ddewis astudio ystod eang o fodiwlau'r gyfraith a gynigir gan yr Adran.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

# Troseddeg a Chymdeithaseg

56% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | ML93 | 3 blynedd

Bydd y radd BSc mewn Troseddeg a Chymdeithaseg yn eich galluogi i ddysgu am y cysyniadau sy'n allweddol i ddeall sut mae trosedd a gwyredd yn cael eu hystyried gan gymdeithas. Cewch gyfle i archwilio natur ryngddisgyblaethol trosedd, troseddiaeth a chymdeithas yn ogystal â'r berthynas rhwng cymdeithas a throsedd.

Bydd y cynllun gradd hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl ichi o'r gymdeithas a throseddu, a bydd yn eich cyflwyno i safbwyntiau newydd ar anghydraddoldeb cymdeithasol a newid cymdeithasol sy'n digwydd yn lleol ac yn rhyngwladol.

Trwy roi golwg fanwl ar droseddeg o safbwynt cymdeithasegol, bydd ein gradd yn rhoi ichi'r wybodaeth ddatblygedig a'r sgiliau dadansoddi sydd eu hangen er mwyn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a chymdeithasol, yn ogystal â'r system cyfiawnder troseddol. Mae hefyd yn fan cychwyn gwych ar gyfer astudiaethau pellach.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan droseddegwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil
- y cyfle i wneud profiad gwaith ym maes cyfiawnder troseddol
- elwa o'n cysylltiadau cryf ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol
- ymgymryd ag ymchwil annibynnol ym maes troseddeg dan oruchwyliaeth.

**Cyflogadwyedd**

Mae Troseddeg a Chymdeithaseg yn cynnig sail academaidd ragorol ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Carchar EF, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a chyfiawnder ieuenctid. Gall cyflawni'r radd hon hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi trosedd neu gudd-wybodaeth, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Rheoli ac Atal Troseddu
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Troseddegwyr
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Key Concepts in Sociology
- Place and Identity
- Understanding Sameness and Difference.

**Yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf:**

- Sgiliau Ymchwil Meintiol
- Introduction to Social Theory
- Understanding (in)equality and (in)justice
- Traethawd Estynedig Empeiraidd neu Draethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg
- Troseddeg Feirniadol a Radical.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Contemporary Global Migration
- Placing Culture
- Placing Politics
- Geographical Information Systems
- Seiberdroseddu a Seiberddiogelwch
- Crime and the Media
- Drugs and Crime
- Everyday Social Worlds
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Psychopathology
- Treatment and Rehabilitation of Offenders
- Victimology.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Troseddeg a Seicoleg Droseddol

71% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | M9C6 | 3 blynedd

Mae Troseddeg a Seicoleg Droseddol yn radd thematig ym maes troseddeg a fydd yn rhoi cyfle ichi astudio trosedd ac ymddygiad troseddol o safbwynt seicolegol. Mae'r cwrs yn ymchwilio i ymddygiad a meddyliau troseddwyr, achosion ac effeithiau troseddolrwydd, a sut i atal ymddygiad troseddol, a hynny trwy lens ddeuol troseddeg a seicoleg. Mae hefyd yn ymchwilio i'r defnydd o seicoleg gyfreithiol a fforensig mewn agweddau ar ymchwiliadau'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol.

Byddwch yn archwilio'r rhesymau y mae pobl yn troseddu, yn ogystal â pham y diffinnir rhai gweithredoedd penodol yn rhai troseddol. Bydd ein hacademyddion sy'n weithgar ym maes ymchwil yn eich hyfforddi yn nulliau sylfaenol ymchwil droseddegol, a bydd hyn yn rhoi ichi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwerthuso astudiaethau damcaniaethol ac empirig yn y maes hwn mewn modd beirniadol.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan droseddegwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil
- y cyfle i wneud profiad gwaith ym maes cyfiawnder troseddol
- elwa o'n cysylltiadau cryf ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol
- ymgymryd ag ymchwil annibynnol ym maes troseddeg dan oruchwyliaeth.

**Cyflogadwyedd**

Mae Troseddeg a Seicoleg Droseddol yn cynnig sail academaidd ragorol ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Carchar EF, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a chyfiawnder ieuenctid. Gall cyflawni'r radd hon hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi trosedd neu gudd-wybodaeth, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Troseddegwyr
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Rheoli ac Atal Troseddu
- Troseddeg ar Waith
- Foundations of Psychology.

**Yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf:**

- Sgiliau Ymchwil Meintiol
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour
- Psychopathology
- Treatment and Rehabilitation of Offenders
- Traethawd Estynedig Empeiraidd neu Draethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Crime and the Media
- Drugs and Crime
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Principles of Evidence
- Troseddau a Chyfiawnder Ieuenctid
- Contemporary Issues in Criminology
- Seiberdroseddu a Seiberddiogelwch
- Victimology.

Gall myfyrwyr Troseddeg hefyd ddewis astudio ystod eang o fodiwlau'r gyfraith a gynigir gan yr Adran.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Seicoleg a Throseddeg

43% ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society

## BSc (Anrh) | CM89 | 3 blynedd

Mae'r radd gyfun mewn Seicoleg a Throseddeg yn cyfuno dau bwnc cydgysylltiedig yn effeithiol er mwyn i chi gael dysgu am agweddau damcaniaethol ar droseddu o safbwynt cymdeithaseg, athroniaeth a seicoleg.

Cewch astudio pam mae pobl yn troseddu a goblygiadau cymdeithasol a diwylliannol troseddu, gan gyfeirio'n agos at y meddwl troseddol, er mwyn dysgu a datblygu'r sgiliau hollbwysig sydd eu hangen i fynd i weithio yn y maes hwn. Mae'r radd hon, sydd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS), hefyd ar gael gyda blwyddyn mewn diwydiant, a fyddai'n rhoi cyfle ichi ennill sgiliau newydd, rhwydweithio â chyflogwyr posibl a datblygu'r arbenigedd sydd ei angen i weithio mewn diwydiannau cystadleuol.

Byddwch yn elwa o:

- astudio mewn amgylchedd cefnogol sy'n rhoi'r pwyslais ar y myfyrwyr – mae ein staff academaidd, cynorthwyol a thechnegol yma i chi bob cam o'r ffordd
- gallu manteisio ar arbenigedd staff mewn dwy adran sy'n weithgar ym maes ymchwil
- agwedd arloesol at ddysgu ac addysgu – mae gan yr Adran gyfleusterau ymchwil modern ac arloesol yn ogystal â mannau dysgu o'r radd flaenaf i fyfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**

Bydd ein gradd BSc Seicoleg a Throseddeg yn rhoi sylfaen gadarn i ystyried gyrfa yn y proffesiynau cymdeithasol a gwaith ieuenctid, a bydd yn rhoi sgiliau arbenigol a gwybodaeth berthnasol ar gyfer gyrfa mewn lleoliad cyfiawnder troseddol (ee yr heddlu neu'r gwasanaeth prawf neu garchardai). Mae ein graddedigion wedi dilyn gyrfaoedd eraill hefyd, yn cynnwys seicoleg glinigol, addysgol, alwedigaethol, chwaraeon ac ymarfer corff; seicotherapi a chwnsela; gwaith cymdeithasol; gofal iechyd; adnoddau dynol; gwasanaeth cyngor gyrfaol; marchnata, cyhoeddi a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Brain, Behaviour and Cognition
- Crime, Control and Prevention*
- Cyflwyniad i Droseddeg
- System Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology and Individual Differences
- Prosiect Ymchwil Seicoleg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Contemporary Issues in Criminology
- Crime & Punishment in Historical Perspective
- Criminal Law
- Critical Perspectives on Imprisonment
- Drugs and Crime
- Police, Policing and Society
- Principles of Evidence
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour
- Psychology and Crime
- Treatment and Rehabilitation of Offenders
- Youth Justice.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**A1C6** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.

# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Yma yn Adran y Gyfraith a Throseddeg, rydym yn cynnig sawl cynllun gradd trwy gyfrwng y Gymraeg, ym meysydd y Gyfraith a Throseddeg.

Wrth astudio ein cynlluniau gradd LLB a BA yn y Gyfraith, cewch astudio'r nifer o gredydau priodol trwy gyfrwng y Gymraeg i fod yn gymwys am rai o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/cymorthariannol**. O ddewis astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, cewch hefyd gyrchu ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg Prifysgol Aberystwyth. Ceir rhagor o wybodaeth yn **www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/ug-studies/scholarships/welsh-medium**.

Gellir astudio mwyafrif modiwlau cwrs LLB Y Gyfraith M100 a BA Y Gyfraith M103 trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae cyfanswm o 40 allan o 120 o gredydau y flwyddyn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar ein cwrs Troseddeg a'r cwrs LLB dwy flynedd.

Rydyn ni'n cynnig y lefel uchaf o ddarpariaeth yng Nghymru i'r rhai sy'n astudio'r Gyfraith a Throseddeg trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, gallech chi gwblhau eich blwyddyn gyntaf yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym ni dîm o staff sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol. Mae ein cyrsiau'n datblygu drwy'r amser a chynlluniwyd y modiwlau i adlewyrchu'r disgyblaethau yng Nghymru.

Golyga hyn ein bod yn gallu cynnig ystod o fodiwlau cyffrous sy'n canolbwyntio ar Gyfraith Gymreig neu'n rhoi Cymru yn ganolog i'r pynciau Troseddeg. Mae ein modiwl Trosedd yn y Gymru Gyfoes yn esiampl dda o hyn.

Mae chwilotydd cyrsiau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn rhoi gwybodaeth am y cyrsiau rydym yn eu cynnig yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwyrgymraeg**.

Mae llawer o fanteision i astudio'ch cwrs yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â bod yn rhan o gymuned Gymraeg ei hiaith, byddwch yn meithrin perthynas o gydweithio'n agos â'ch darlithwyr a chyd-fyfyrwyr, ac yn datblygu sgiliau dwyieithog a fydd yn fantais wrth i chi edrych am waith. Byddwn yn cynnig Tiwtor Personol ynghyd â thiwtor Traethawd Hir Cymraeg eu hiaith i chi hefyd. Yn ogystal â hynny, bydd yr hawl gennych i gyrchu nifer o wasanaethau yn eich dewis iaith. Er enghraifft, oherwydd ein trefniadau addysgu hyblyg, cewch ddewis cyflwyno eich gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, beth bynnag yw iaith addysgu'r modiwl.



# Eich dyfodol

Rydym yn cynnig cyfle i astudio pwnc unigol (cyfraith, troseddeg), neu y pynciau hynny ar y cyd â phynciau eraill – cyfraith gydag is-bwnc, neu droseddeg ar y cyd â Seicoleg. Y mae graddedigion o'r adran wedi mynd ymlaen i gymhwyso fel cyfreithwyr a bargyfreithwyr, heddweision, gweithwyr cymdeithasol, newyddiadurwyr, bancwyr, athrawon a swyddogion prawf.

Y mae gradd yn y gyfraith neu droseddeg yn uchel ei barch ledled y byd. Sefydlwyd Adran Gyfraith Prifysgol Aberystwyth ym 1901, ac ers hynny rydym wedi addysgu pobl sydd wedi mynd i swyddi nodedig, pobl sydd wedi arloesi yn eu maes yn ogystal â phobl sydd wedi dylanwadu mewn modd gwerthfawr ar y bobl o'u cwmpas, hyd yn oed os na chofnodwyd m'ohonynt yn y llyfrau hanes. Er enghraifft, aeth Iris De Freitas, a raddiodd o'r adran ym 1927, ymlaen i fod y fenyw gyntaf i ymarfer y gyfraith yn y Caribî.

Yr oedd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru o 2009-2018, hefyd yn fyfyriwr yn Aberystwyth. Rydym wedi addysgu unigolion sydd wedi mynd ymlaen i weithio fel cyfreithwyr mewn cwmniai bach a mawr, bargyfreithwyr, athrawon, heddweision, darlithwyr, newyddiadurwyr, cyflwynwyr teledu, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion prawf, ac hyd yn oed actorion. Fe gychwynon nhw eu taith yn Aberystwyth.







# Proffil myfyriwr

## Lois Nash, LLB y Gyfraith

Dechreuais fy nghwrs israddedig yn y Gyfraith yma yn Aberystwyth yn 2015. Cefais y cyfle i gyflwyno fy nghais ar gyfer y ddoethuriaeth ar ddiwedd fy nghwrs israddedig, ar y pwnc Lladdiad: Gwerthusiad Feirniadol o ddatblygiad Llofruddiaeth, Dynladdiad a Babanladdiad.

Rwy'n edrych ar Bapur Comisiwn y Gyfraith ar y pwnc, er mwyn edrych ar sefyllfa flaenorol y gyfraith, y cynigion a roddwyd yn y Papur Comisiwn, a pham nad yw'r gyfraith wedi cael ei ddiwygio, er bod problemau wedi eu darganfod.

Dewisais aros yn Aberystwyth oherwydd y safon dysgu anhygoel. Roeddwn hefyd yn hynod lwcus i ennill Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn ariannu'r cwrs a chael cyflwyno fy ymchwil yn Gymraeg.

# Ymchwil yr adran

Y mae Adran y Gyfraith a Throseddeg yn weithgar ym maes ymchwil, a bu’n rhan o asesiad y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2021). Daeth clod i ran Adran y Gyfraith a Throseddeg am effaith ei hymchwil y tu hwnt i’r byd academaidd, gyda thri chwarter yr ymchwil yn cael ei hystyried o safon sy’n arwain y byd, sef y categori uchaf.

Yn 2015, derbyniodd y Ganolfan Astudio Heneiddio, Cam-drin ac Esgeulustod grant gan Gronfa’r Loteri Fawr i ymchwilio i wahanol agweddau ar heneiddio, perthnasau teuluol, cam-drin a chyfiawnder.

Mae’r adran yn ymfalchïo yn ei harbenigedd eang gan gynnwys ymchwil sydd yn ymwneud â’r sawl sydd ar yr ymylon yn gymdeithasol oherwydd ieuenctid neu henaint, hawliau dynol a chyfansoddiadol, datganoli a chyfansoddiad esblygol y Deyrnas Unedig.

Y mae arbenigeddau staff yr adran yn cynnwys aelodaeth o Grŵp Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl, aelodaeth o fwrdd ymchwil Heddlu Dyfed Powys, cyflwyno tystiolaeth i Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, a mynegai cyfeirio yn nyfarniadau’r Llys Troseddol Rhyngwladol. Y mae prosiectau diweddar yn cynnwys ‘Does nunlle’n debyg i gartre: Lleoliad ac Hunan Amddiffyn’, “Y Gyfraith ar waith yn Azerbaijan: Gweinidogion, Cyfreithwyr, Carcharorion Gwleidyddol a Rhoddion Rhyfedd. Peidiwch sôn am Armenia. (Yr Athro Ryszard Piotrowicz) ‘Y degfed cydrdaddoldeb, ac eglurhad o’r naw arall (Dr. Catrin Fflûr Huws) a Diwylliant a Chymorth i Farw (Dr. Glenys Williams).





# Bywyd yr adran

## Y Gymdeithas Ymryson

Mae’r Gymdeithas Ymryson yn gyfle gwych i gymryd rhan mewn ffug achosion llys o’r enw ymrysonau. Mae’n gyfle hefyd i ddatblygu’ch dealltwriaeth o’r gyfraith a chyflwyno dadleuon cyfreithiol, ac i fireinio’ch sgiliau ymchwil a siarad cyhoeddus. Mae’r gymdeithas yn cwrdd yn wythnosol ac yn cynnig hyfforddiant ymrysona i ymrysonwyr newydd a profiadol fel ei gilydd.

Mae’r gymdeithas hefyd yn cynnal sawl cystadleuaeth dros y flwyddyn gan gynnwys y Gystadleuaeth Eiriolaeth ar gyfer Ymrysonwyr Newydd, a chystadleuaeth ymryson ar gyfer pob blwyddyn academaidd. Mae’r gymdeithas hefyd yn trefnu ffug achosion llys, gan gynnwys R v y Tri Mochyn Bach ar gyhuddiad o lofruddiaeth a R v Dorothy o The Wizard of Oz ar gyhuddiad o ddwyn a dynladdiad.

Mae’r Gymdeithas hefyd yn cymryd ran mewn nifer o gystadlaethau cenedlaethol gan gynnwys Ymryson Cenedlaethol OUP/ICCA National Moot, Cystadleuaeth Ymryson Cenedlaethol Cymru (lle mae Aberystwyth wedi ennill ddwywaith) a Chystadleuaeth Ymryson Cyfraith Feddygol Prifysgol Caerlyr (lle daeth Aberystwyth yn ail).

Cynhelir sawl achos mewn llysoedd go iawn, gan gynnwys Cystadleuaeth Ymryson a gynhaliwyd yn y Goruchaf Lys yn 2016, ac achos yng Nghanolfan Cyfiawnder Aberystwyth. Caiff ymrysonau eu barnu gan gyfreithwyr, ac felly cynigiant gyfle gwych i gwrdd ag ymarferwyr y gyfraith.

## Cymdeithas y Gyfraith

Ceir cymdeithas y gyfraith weithredol o fewn yr adran sydd yn trefnu: teithiau i lysoedd a ffeiriau gyrfaol, arwerthiant gwerslyfrau, sgyrsiau, gweithgareddau cymdeithasol, ac uchafbwynt y flwyddyn sef y ddawns flynyddol **https://www.abersu.co.uk/society/6283/**

## Y Gymdeithas Droseddeg

Y mae’r Gymdeithas Droseddeg yn rhan bwysig o weithgarwch yr Adran, gan gynnig rhaglen amrywiol o nosweithiau ffilm, ymweliadau carchar a sesiynau cefnogi astudio cyn arholiadau. **https://www.abhersu.co.uk/society/criminologysociety1/**

## Aberystwyth Law and Criminology Journal

Y mae’r Aberystwyth Law & Criminology Journal yn brosiect sydd â'r nod o ddarparu platfform ar gyfer arddangos gwaith o’r safon uchaf a gynhyrchwyd gan ein myfyrwyr. Mae’n gyfle i gyhoeddi’ch gwaith, yn enwedig os ydych chi wedi cyflawni darn sylweddol o waith megis traethawd estynedig.

Mae’r Cylchgrawn hefyd yn coffáu un o gyn-fyfyrwyr yr adran, sef Ern Nian Yaw, gan ddyfarnu gwobr flynyddol er cof amdano. Roedd Ern Nian yn fyfyriwr a fu’n allweddol i ddatblygiad y cylchgrawn, ond cafodd ei ladd mewn damwain cyn cyhoeddi’r gyfrol gyntaf. Dyfernir y wobr i awdur erthygl sydd yn dangos rhinweddau Ern Nian – gallu academaidd arbennig, ymroddiad at waith a manylder. I ganfod mwy, ewch i: **https://auslcj.wixsite.com/aberlawjournal**



# Cyfleoedd byd-eang

**Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig ystod gyffrous o opsiynau i chi fynd dramor yn rhan o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd gwirfoddoli yn yr haf, i semester lawn neu flwyddyn dramor yn astudio mewn prifysgol sy’n un o’n partneriaid.**

Os byddwch yn dewis astudio gyda blwyddyn integredig dramor, mae'r Brifysgol yn eich galluogi i astudio am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd flwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn olaf ac i raddio.

Dengys adroddiadau bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o arian na'u cyfoedion. Beth felly am fanteisio ar gyfle anhygoel a gwella eich sgiliau holl bwysig ar yr un pryd trwy ddewis astudio dramor?




Hong Kong


Budapest


Buenos Aires


Washington, DC


Norwy



# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau’r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o’r broses a’n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 31 Ionawr. Côd sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**GAIR I GALL:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**GAIR I GALL:** Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i’w weld ar Hwb UCAS

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw’r cynnig, cysylltwch â’r brifysgol yn uniongyrchol. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio.

## 7 Dechreuwch bacio!




Adran y Gyfraith a Throseddeg,
Prifysgol Aberystwyth,
Adeilad Hugh Owen,
Penglais,
Aberystwyth, SY23 3DY

+44 (0)1970 62 1537

cyfraith@aber.ac.uk

/AberystwythLawandCriminology

@ALSAberUni

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2023.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%